


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Swyddfa'r UE

# Materion Ewropeaidd

Rhifyn 34 - Gwanwyn 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cyfathrebu'r Cynulliad**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cyflwyniad



**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Y Llywydd**

Mae’n bleser gennyf gyflwyno rhifyn 34 o'n cylchlythyr, Materion Ewropeaidd, sy’n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd, a'r rhifyn olaf cyn i mi roi'r gorau i'm rôl ar ddiwedd y Cynulliad hwn.

Mae'n adeg amserol, o gofio'r ansicrwydd ynghylch ein dyfodol yn yr UE wrth i ni aros am y Refferendwm ar 23 Mehefin, i fyfyrio ar yr hyn y mae ymgysylltu â'r UE wedi ei olygu i'r Pedwerydd Cynulliad hwn. Credaf ei bod yn deg dweud bod prif-ffrydio materion yr UE ar draws y Pwyllgorau wedi bod yn llwyddiant, ac wedi cael croeso mawr yn y Cynulliad ac ymhlith rhanddeiliaid allanol, er gwaethaf amheuon cychwynnol.

Beth bynnag fydd canlyniad y refferendwm ym mis Mehefin rwy'n credu y bydd awydd cryf bod y Cynulliad yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â materion yr UE, ac rwy'n siŵr y bydd aelodau'r Cynulliad newydd yn myfyrio ar hyn.

Er bod gwaith y Pwyllgorau'n dirwyn i ben mae materion Ewropeaidd wedi aros ar frig yr agenda. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Busnes sesiynau gyda rhai o Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, Derek Vaughan a Dr Kay Swinburne, a gyda thri Llysgennad Cyllid yr UE. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor hwn ymateb yr UE i'r argyfwng parhaus yn y sector dur. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Ewrop, David Lidington AS, gan nodi ei arsylwadau ar drafodaethau Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r UE. Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn ddiweddaru gyda swyddogion Llywodraeth y DU ar gynigion drafft yr UE ar Sylweddau Seicoweithredol Newydd. Cyfarfu Llysgennad yr Iseldiroedd i'r DU â'r Dirprwy Lywydd a Chadeiryddion y Pwyllgorau i drafod Llywyddiaeth yr Iseldiroedd o'r UE, gyda refferendwm y DU yn un o themâu amlwg y trafodaethau.

Arweiniodd Mick Antoniw AC ddadl ar adroddiad gan gynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau i'r Cynulliad ar eu gwaith diweddar, tra bu Rhodri Glyn Thomas AC, a fydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau ym mis Ebrill, yn bresennol mewn nifer o gynadleddau a chyfarfodydd yn dilyn ei adroddiad ar Ddatblygu Potensial Ynni'r Môr.

I gloi, mae wedi bod yn bleser yn ystod y Cynulliad hwn i groesawu cynifer o westeion adnabyddus ac ymwelwyr o bwys i'r Senedd. Ymhlith yr ymweliadau diweddar roedd ymweliad gan Lysgennad Ffrainc i'r DU, Ei Hardderchowgrwydd Sylvie Bermann, a gyflwynodd y Legion d'Honneur i gyn-filwyr o Gymru o'r Ail Ryfel Byd mewn seremoni

arbennig yn y Pierhead, a dirprwyaeth o Senedd Gwlad yr Iâ o dan arweiniad y Llefarydd Mr Einar K Gudfinnsson AS.

# Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

– Mae rhestr o flaenoriaethau'r Pwyllgor o ran yr UE i'w gweld ar dudalen Materion Ewropeaidd gwefan y Pwyllgor.

– Ym mis Rhagfyr 2015, trafododd y Pwyllgor Raglen Waith y Comisiwn ar gyfer 2016 a chyhoeddodd **y wybodaeth ddiweddaraf am ei waith yn ymwneud â'r UE**. Rhoddwyd ystyriaeth i flaenoriaethau'r Pwyllgor o ran yr UE fel rhan o'i waith etifeddiaeth. Bydd adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor yn amlinellu ei farn ar flaenoriaethau ar gyfer y Cynulliad nesaf yn cael ei lansio ar 16 Mawrth 2016.

– **Cynhyrchu Organig a labelu cynhyrchion organig**: Ar 24 Chwefror nododd y Pwyllgor lythyr gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd pan addawodd y byddai'n lleisio pryderon y Pwyllgor mewn trafodaethau.

## Y Pwyllgor Menter a Busnes

– **Yr Economi Forwrol**: Ar 12 Chwefror cyhoeddodd y Pwyllgor yr adroddiad ar ei ymchwiliad i Botensial yr Economi Forwrol yng Nghymru.

– **Aelodau Cymru o Senedd Ewrop** Ar 24 Chwefror cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn breifat i drafod y wybodaeth ddiweddaraf gydag Aelodau Cymru o Senedd Ewrop.

– **Yr Argyfwng Dur**: Ar 3 Mawrth clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynhyrchwyr, undebau a Llywodraeth Cymru am y pwysau sy'n wynebu'r diwydiant dur.

– **Gwybodaeth ddilynol ar Cysylltu Ewrop / TEN-T**: Ar 24 Chwefror nododd y Pwyllgor lythyr gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch ymgysylltu ar geisiadau posibl o dan y Cyfleuster Cysylltu Ewrop.

– **Llysgenhadon Cyllid yr UE**: Ar 9 Mawrth cyfarfu'r Pwyllgor â Llysgenhadon Cyllid UE Llywodraeth Cymru er mwyn clywed y wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith.

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

– **Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd**: Ar 11 Chwefror cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn friffio breifat gyda swyddogion Swyddfa Gartref y DU ar Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 a datblygiadau perthnasol ar lefel yr UE. Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad i lansio pecyn cymorth addysg SSW Heddlu Gwent ar 24 Chwefror.

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

– **Adroddiad ar Sybsidiaredd**: Cafodd yr adroddiad monitro ar faterion sybsidiaredd sy'n berthnasol i Gymru sy'n deillio o gynigion deddfwriaethol drafft yr UE, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi a mis Chwefror, ei ystyried yn y cyfarfod ar 7 Mawrth.

– **Ymchwiliad i Agenda Ddiwygio Llywodraeth y DU ar yr UE**: Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Ewrop David Lidington AS ym mis Mawrth yn manylu ar ganfyddiadau'r ymchwiliad a gynhaliodd i agenda ddiwygio Llywodraeth y DU ar yr UE.

## Busnes y Cyfarfod Llawn gyda sesiynau penodol ar faterion Ewropeaidd

– 24 Chwefror: Arweiniodd Mick Antoniw AC ddadl ar yr Adroddiad ar Weithgareddau Cynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor Rhanbarthau yr UE i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Noder: yn ogystal â'r uchod, mae materion Ewropeaidd yn codi'n aml yn natganiadau'r Gweinidogion ac mewn cwestiynau i Weinidogion.*

## Gweithgareddau allanol Aelodau ar fusnes y Cynulliad

- 4 Chwefror: Bu Rhodri Glyn Thomas AC, yn rhinwedd ei swydd fel rapporteur Pwyllgor y Rhanbarthau ar Ynni'r Môr, mewn gweithdy UE ar "Rôl Dinas-Ranbarthau wrth Gyflawni Economi Carbon Isel".
- 10-11 Chwefror: Roedd Rhodri Glyn Thomas AC yn bresennol yng nghyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- 12-17 Chwefror: Bu'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, ar ymweliad ag Affrica. Roedd ei rhaglen swyddogol yn cynnwys ymweliadau a chyfarfodydd gyda Llefarwyr a chynrychiolwyr o Senedd Lesotho, Deddfwrfa Daleithiol De Affrica yn ogystal â senedd ffederal De Affrica. Roedd yr ymweliad hefyd yn gyfle i gwrdd â'r gymuned Gymreig sy'n byw ac yn gweithio yn Lesotho a De Affrica.
- 15-16 Chwefror: Cymerodd David Rees AC ran mewn cynhadledd a drefnwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar Ddiwydiannau Dwys Mawr a chafodd gyfarfodydd gyda UKREP a'r Comisiwn Ewropeaidd (Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Masnach, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth) i drafod yr argyfwng dur.
- 19 Chwefror: Cymerodd Rhodri Glyn Thomas AC ran mewn trafodaeth ford gron ar Ynni'r Môr yn y Comisiwn Ewropeaidd
- 23 Chwefror: Siaradodd Rhodri Glyn Thomas AC yn Fforwm Ynni'r Môr yng Nghaeredin
- 24 Chwefror: Aeth Rhodri Glyn Thomas AC i gyfarfod Comisiwn yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd ac Ynni ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- 3 Mawrth: Aeth Rhodri Glyn Thomas AC i gynhadledd ar ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel

## Ymweliadau gan gynrychiolwyr rhyngwladol ac ymwelwyr pwysig eraill â'r Senedd

- 28 Ionawr: Bu Llysgennad Ffrainc i'r DU, Ei Hardderchowgrwydd Sylvie Bermann, ar ymweliad â'r Cynulliad i gyflwyno'r Legion d'Honneur i 12 o gyn-filwyr Cymru o'r Ail Ryfel Byd mewn seremoni arbennig yn y Pierhead a gafodd ei harwain gan David Melding AC, y Dirprwy Lywydd.
- 25 Chwefror: Bu Llysgennad yr Iseldiroedd, Ei Ardderchowgrwydd Mr Simon J Smits ar ymweliad â'r Cynulliad a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd.
- 25 Chwefror - Bu dirprwyaeth o Mongolia ar ymweliad â'r Cynulliad fel rhan o raglen ehangach yn y DU a drefnwyd gan Grŵp Prydain o'r Undeb Rhyng-Seneddol.
- 1-2 Mawrth: Cyfarfu'r Aelod Seneddol o Ffrainc, Monsieur Christophe Premat, sy'n cynrychioli pobl Ffrainc dramor yng Ngogledd Ewrop, â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o ymweliad â'r Cynulliad a drefnwyd gan Marie Brousseau-Navarro, Conswl Anrhydeddus Ffrainc yng Nghaerdydd.
- 2-3 Mawrth: Bu dirprwyaeth o Senedd Gwlad yr Iâ, o dan arweinyddiaeth y Llefarydd, Mr Einar K Gudfinnsson AS, yn ymweld â'r Cynulliad a chyfarfod a'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, David Hughes, Pennaeth Swyddfa'r UE yng Nghymru, yn ogystal â llawer o Aelodau a swyddogion y Comisiwn fel rhan o'u rhaglen swyddogol yng Nghymru.

## Lincs

– **Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

– **Hysbysiad Busnes y Cynulliad**

– **Tudalennau'r pwyllgorau**

– **Tudalennau'r Gwasanaeth Ymchwil**

## I gael rhagor o wybodaeth:

### Cysylltwch â:


Gregg Jones, Pennaeth Swyddfa'r UE (**Gregg.Jones@Cynulliad.cymru**)

**Swyddfa'r UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Cymru**
**6ed Llawr**
**Rond Point Schuman 11**
**1040 Brwsel**
**Gwlad Belg**

Ffôn **0032 2 226 66 92**
Symudol **0032 466 315750**
**Dilynwch ni ar Twitter: @SeneddEurope**

**Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel (Pedwerydd llawr)**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd CF99 1NA**

**0044 (0)300 200 6255 / 6256**
**TimRhyngwladol@Cynulliad.Cymru**


**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.**
Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am dderbyn copïau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, neu os nad ydych wedi derbyn y cylchlythyr hwn yn uniongyrchol ac yr hoffech ychwanegu eich enw at y rhestr bostio, cysylltwch â Gregg Jones drwy e-bost.



